OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2015 Rhif 1494 (Cy. 166)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Rheoliadau Gofal a Chymorth (Anghydfodau ynghylch Preswylfa Arferol, etc.) (Cymru) 2015

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *7 Gorffennaf 2015* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *10 Gorffennaf 2015* |
| *Yn dod i rym - -* | *6 Ebrill 2016* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 195(2) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gofal a Chymorth (Anghydfodau ynghylch Preswylfa Arferol, etc.) (Cymru) 2015.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2016 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "anghydfod" ("*dispute*") yw anghydfod—

(a) rhwng awdurdodau lleol ynghylch ble y mae person yn preswylio fel arfer yng Nghymru at ddibenion y Ddeddf,

(b) rhwng awdurdod lleol anfon ac awdurdod lleol derbyn o dan adran 56 o'r Ddeddf (hygludedd gofal a chymorth) ynghylch cymhwyso'r adran honno, neu

(c) rhwng awdurdodau lleol ynghylch cymhwyso adran 189 o'r Ddeddf (methiant darparwr: dyletswydd dros dro ar awdurdod lleol);

ystyr "yr awdurdod arweiniol" ("*the lead authority*"), mewn perthynas ag anghydfod, yw'r awdurdod lleol sydd (o ganlyniad i reoliad 2 neu fel arall)—

(a) yn diwallu anghenion y person y mae'r anghydfod yn ymwneud ag ef, neu ofalwr dros y person hwnnw, ar y dyddiad y mae'r anghydfod yn codi, neu

(b) os nad oes unrhyw awdurdod lleol yn diwallu'r anghenion hynny ar y dyddiad hwnnw, o dan ofyniad i wneud hynny gan reoliad 2(3);

(**1**) 2014 dccc 4.

ystyr "atgyfeirir" ac "yn cael ei atgyfeirio" ("*referred*") yw atgyfeirio i gael dyfarniad arno gan y person priodol, ac mae "atgyfeirio" ("*refer*") ac "atgyfeiriad" ("*referral*") i'w dehongli yn unol â hynny;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014;

ystyr "y person priodol" ("*the appropriate person*") yw'r person y mae anghydfod i'w ddyfarnu arno ganddo yn unol ag adran 195(1) o'r Ddeddf.

(4) Mae cyfeiriadau yn y Rheoliadau hyn at y dyddiad y mae anghydfod yn codi yn gyfeiriadau at y dyddiad cyntaf yr anfonir cyfathrebiad ysgrifenedig arno gan un o'r awdurdodau lleol ("yr awdurdod cyntaf") at un arall o'r awdurdodau lleol ("yr ail awdurdod") sydd (yn ôl y digwydd)—

(a) yn honni nad yw'r person y mae'r anghydfod yn ymwneud ag ef, ym marn yr awdurdod cyntaf, yn preswylio fel arfer yn ei ardal at ddibenion y Ddeddf, neu fod y person yn preswylio fel arfer yn ardal yr ail awdurdod at y dibenion hynny,

(b) yn codi mater ynghylch cymhwyso adran 56 o'r Ddeddf, neu

(c) yn codi mater ynghylch cymhwyso adran 189 o'r Ddeddf.

(5) Yn y Rheoliadau hyn, mae cyfeiriad at "yr awdurdodau" yn gyfeiriad at yr awdurdodau sy'n bartïon i anghydfod ac mae'n cynnwys (pan fo'n wahanol) gyfeiriad at yr awdurdod arweiniol mewn perthynas â'r anghydfod hwnnw.

**Cyfrifoldeb am ddiwallu anghenion tra bo anghydfod heb ei ddatrys**

**2.**—(1) Ni chaiff yr awdurdodau ganiatáu i fodolaeth yr anghydfod atal diwallu, oedi cyn diwallu, ymyrryd â diwallu, neu effeithio'n andwyol fel arall ar ddiwallu, anghenion y person y mae'r anghydfod yn ymwneud ag ef neu anghenion gofalwr y person hwnnw.

(2) Rhaid i'r awdurdod lleol sy'n diwallu anghenion y person neu'r gofalwr ar y dyddiad y mae'r anghydfod yn codi barhau i ddiwallu'r anghenion hynny hyd nes y caiff yr anghydfod ei ddatrys.

(3) Os nad oes unrhyw awdurdod lleol yn diwallu'r anghenion ar y dyddiad y mae'r anghydfod yn codi—

(a) rhaid i'r awdurdod lleol y mae'r person y mae'r anghydfod yn ymwneud ag ef yn byw yn ei ardal, neu

(b) os nad yw'r person y mae'r anghydfod yn ymwneud ag ef yn byw yn ardal unrhyw awdurdod lleol, rhaid i'r awdurdod lleol y mae'r person hwnnw'n bresennol yn ei ardal

gyflawni, hyd nes y caiff yr anghydfod ei ddatrys, y dyletswyddau o dan y Ddeddf mewn cysylltiad â'r person ac unrhyw ofalwr y person hwnnw fel petai'r person yn preswylio fel arfer yn ei ardal.

(4) Os yw'r ddyletswydd o dan baragraff (3) i'w chyflawni gan awdurdod lleol ("A") nad yw'n un o'r awdurdodau sydd eisoes yn barti i'r anghydfod, rhaid i'r awdurdodau hynny, yn ddi-oed, dynnu sylw A at—

(a) dyletswydd A o dan y paragraff hwnnw, a

(b) statws A fel yr awdurdod arweiniol at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(5) Nid yw A o dan y dyletswyddau yn y Rheoliadau hyn tan y dyddiad y daw'n ymwybodol, neu y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddo fod wedi bod yn ymwybodol, o'i statws fel yr awdurdod arweiniol.

(6) Pan fo'r anghydfod yn ymwneud â chymhwyso adran 56 (hygludedd gofal a chymorth), rhaid i'r awdurdodau gyflawni'r dyletswyddau o dan yr adran honno er gwaethaf bodolaeth yr anghydfod.

**Y camau sydd i'w cymryd cyn atgyfeirio anghydfod**

**3.**—(1) Rhaid i'r awdurdodau, cyn atgyfeirio'r anghydfod, gymryd y camau a bennir yn y rheoliad hwn.

(2) Cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ar ôl y dyddiad y mae'r anghydfod yn codi—

(a) rhaid i'r awdurdod arweiniol geisio canfod yr holl awdurdodau eraill sydd â rhan yn yr anghydfod a chydgysylltu trafodaethau rhwng yr awdurdodau hynny mewn ymgais i ddatrys yr anghydfod, a

(b) rhaid i bob un o'r awdurdodau enwebu unigolyn a fydd yn gweithredu fel y pwynt cyswllt o fewn yr awdurdod hwnnw mewn perthynas â'r anghydfod, a rhoi manylion cyswllt yr unigolyn hwnnw i'r awdurdodau eraill.

(3) Rhaid i'r awdurdod arweiniol—

(a) cydgysylltu'r modd y mae'r awdurdodau yn cyflawni eu dyletswyddau o dan y rheoliad hwn,

(b) cymryd camau i sicrhau oddi wrth yr awdurdodau eraill wybodaeth a allai fod yn berthnasol i'r dyfarniad ar yr anghydfod,

(c) datgelu'r wybodaeth honno i unrhyw awdurdod arall, a

(d) datgelu i'r awdurdodau eraill unrhyw wybodaeth y mae'r awdurdod arweiniol ei hun yn ei dal ac a allai helpu i ddatrys yr anghydfod.

(4) Rhaid i'r awdurdodau—

(a) cymryd pob cam rhesymol i ddatrys yr anghydfod rhyngddynt hwy eu hunain, a

(b) cydweithredu â'i gilydd wrth gyflawni eu dyletswyddau o dan y rheoliad hwn.

(5) Rhaid i bob un o'r awdurdodau—

(a) cynnal deialog adeiladol gyda'r awdurdodau eraill, gyda golwg ar beri i'r anghydfod gael ei ddatrys yn gyflym,

(b) cydymffurfio, yn ddi-oed, ag unrhyw gais rhesymol am wybodaeth berthnasol a wneir gan yr awdurdod arweiniol, ac

(c) hysbysu'r awdurdodau eraill yn rheolaidd am unrhyw ddatblygiadau y mae'n ymddangos iddo eu bod yn berthnasol i'r dyfarniad ar yr anghydfod.

(6) Rhaid i'r awdurdod arweiniol ddarparu i'r personau y mae paragraff (7) yn gymwys iddynt unrhyw wybodaeth y mae'n ymddangos iddo ei bod yn briodol am gynnydd i ddatrys yr anghydfod.

(7) Mae'r paragraff hwn yn gymwys i'r personau canlynol—

(a) y person y mae'r anghydfod yn ymwneud ag ef,

(b) gofalwr y person hwnnw (os yw'r anghydfod yn ymwneud â pha awdurdod sydd i ddiwallu anghenion gofalwr), ac

(c) person sy'n cynrychioli'r person neu'r gofalwr.

(8) Os nad yw'r awdurdodau yn gallu datrys yr anghydfod rhyngddynt hwy eu hunain o fewn pedwar mis i'r dyddiad y cododd yr anghydfod, rhaid i'r awdurdod arweiniol ei atgyfeirio at y person priodol.

**Atgyfeirio: anghydfodau ynghylch preswylfa arferol neu hygludedd gofal a chymorth**

**4.**—(1) Rhaid i'r atgyfeiriad gynnwys y dogfennau canlynol—

(a) llythyr a lofnodwyd gan yr awdurdod arweiniol mewn perthynas â'r anghydfod,

(b) datganiad o'r ffeithiau a lofnodwyd ar ran pob un o'r awdurdodau sy'n cynnwys yr wybodaeth a bennir ym mharagraff (2), ac

(c) copïau o'r holl ohebiaeth rhwng yr awdurdodau sy'n ymwneud â'r anghydfod.

(2) Yr wybodaeth benodedig yw—

(a) esboniad o natur yr anghydfod,

(b) cronoleg y digwyddiadau a arweiniodd at atgyfeirio'r anghydfod, gan gynnwys y dyddiad y cododd yr anghydfod,

(c) y manylion am anghenion y person y mae'r anghydfod yn ymwneud ag ef ("y person perthnasol") o ddechrau'r cyfnod y mae'r anghydfod yn ymwneud ag ef,

(d) os yw'r anghydfod yn ymwneud â pha awdurdod sydd i ddiwallu anghenion gofalwr, y manylion am anghenion y gofalwr o ddechrau'r cyfnod y mae'r anghydfod yn ymwneud ag ef,

(e) datganiad ynghylch pa awdurdod sydd wedi diwallu'r anghenion hynny ers dechrau'r cyfnod y mae'r anghydfod yn ymwneud ag ef, sut y cafodd yr anghenion hynny eu diwallu a'r darpariaethau statudol y cawsant eu diwallu odanynt,

(f) y manylion am fan preswylio'r person perthnasol, ac am unrhyw fannau preswylio blaenorol sy'n berthnasol i'r anghydfod,

(g) mewn achos pan fo galluedd y person perthnasol i benderfynu ble i fyw yn berthnasol i'r anghydfod, naill ai—

(i) datganiad bod yr awdurdodau'n cytuno bod gan, neu nad oes gan, y person alluedd o'r fath, neu

(ii) gwybodaeth y mae'n ymddangos i unrhyw un neu ragor o'r awdurdodau ei bod yn berthnasol i'r cwestiwn ynghylch a oes gan, neu a nad oes gan, y person alluedd o'r fath,

(h) datganiad ynghylch unrhyw gamau eraill a gymerwyd gan yr awdurdodau mewn perthynas â'r person perthnasol neu ei ofalwr, ac a all fod yn berthnasol i'r anghydfod,

(i) y manylion am y camau y mae'r awdurdodau wedi eu cymryd i ddatrys yr anghydfod rhyngddynt hwy eu hunain, a

(j) unrhyw wybodaeth arall y mae'n ymddangos i unrhyw un neu ragor o'r awdurdodau ei bod yn berthnasol i'r dyfarniad ar yr anghydfod.

(3) Rhaid i'r awdurdodau gyflwyno unrhyw ddadleuon cyfreithiol y maent yn dibynnu arnynt mewn perthynas â'r anghydfod o fewn 14 o ddiwrnodau i'r dyddiad yr atgyfeirir yr anghydfod.

(4) Os yw awdurdod yn cyflwyno dadleuon cyfreithiol, rhaid iddo—

(a) anfon copi o'r dadleuon hynny at yr awdurdodau eraill, a

(b) darparu tystiolaeth i'r person priodol ei fod wedi gwneud hynny.

(5) Os yw'r person priodol yn gofyn i unrhyw un neu ragor o'r awdurdodau ddarparu gwybodaeth bellach, rhaid i'r awdurdod lleol y gwneir cais hwn iddo gydymffurfo ag ef yn ddi-oed.

(6) Nid yw'r rheoliad hwn yn gymwys i achos y mae rheoliad 5 neu 6 yn gymwys iddo.

**Atgyfeirio: anghydfodau ynghylch cydweithredu o dan adran 189 (methiant darparwr: dyletswydd dros dro ar awdurdod lleol)**

**5.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i anghydfod sy'n ymwneud yn unig â chymhwyso adran 189(7)(a) neu (b) o'r Ddeddf (dyletswydd i gydweithredu).

(2) Rhaid i'r atgyfeiriad gynnwys y dogfennau canlynol—

(a) llythyr a lofnodwyd gan yr awdurdod arweiniol mewn perthynas â'r anghydfod, yn datgan bod yr anghydfod yn cael ei atgyfeirio,

(b) datganiad o'r ffeithiau a lofnodwyd ar ran pob un o'r awdurdodau sy'n cynnwys yr wybodaeth a bennir ym mharagraff (3), ac

(c) copïau o'r holl ohebiaeth rhwng yr awdurdodau sy'n ymwneud â'r anghydfod.

(3) Yr wybodaeth benodedig yw—

(a) esboniad o natur yr anghydfod,

(b) cronoleg y digwyddiadau a arweiniodd at atgyfeirio'r anghydfod, gan gynnwys y dyddiad y cododd yr anghydfod,

(c) y manylion am y camau y mae'r awdurdodau wedi eu cymryd i ddatrys yr anghydfod rhyngddynt hwy eu hunain, a

(d) unrhyw wybodaeth arall y mae'n ymddangos i unrhyw un neu ragor o'r awdurdodau ei bod yn berthnasol i'r dyfarniad ar yr anghydfod.

(4) Rhaid i'r awdurdodau gyflwyno unrhyw ddadleuon cyfreithiol y maent yn dibynnu arnynt mewn perthynas â'r anghydfod o fewn 14 o ddiwrnodau i'r dyddiad yr atgyfeirir yr anghydfod.

(5) Os yw awdurdod yn cyflwyno dadleuon cyfreithiol, rhaid iddo—

(a) anfon copi o'r dadleuon hynny at yr awdurdodau eraill, a

(b) darparu tystiolaeth i'r person priodol ei fod wedi gwneud hynny.

(6) Os yw'r person priodol yn gofyn i unrhyw un neu ragor o'r awdurdodau ddarparu gwybodaeth bellach, rhaid i'r awdurdod lleol y gwneir y cais hwn iddo gydymffurfio ag ef yn ddi-oed.

**Atgyfeirio: anghydfodau ynghylch costau a dynnwyd o dan adran 189 (methiant darparwr: dyletswydd dros dro ar awdurdod lleol)**

**6.**—(1) Mae'r rheoliad hwn yn gymwys i anghydfod sy'n ymwneud yn unig â chymhwyso adran 189(7)(c) o'r Ddeddf (adennill costau).

(2) Rhaid i'r atgyfeiriad gynnwys y dogfennau canlynol—

(a) llythyr a lofnodwyd gan yr awdurdod arweiniol mewn perthynas â'r anghydfod, yn datgan bod yr anghydfod yn cael ei atgyfeirio,

(b) datganiad o'r ffeithiau a lofnodwyd ar ran pob un o'r awdurdodau sy'n cynnwys yr wybodaeth a bennir ym mharagraff (3), ac

(c) copïau o'r holl ohebiaeth rhwng yr awdurdodau sy'n ymwneud â'r anghydfod.

(3) Yr wybodaeth benodedig yw—

(a) esboniad o natur yr anghydfod,

(b) cronoleg y digwyddiadau a arweiniodd at atgyfeirio'r anghydfod, gan gynnwys y dyddiad y cododd yr anghydfod,

(c) y manylion am anghenion y person y mae'r anghydfod yn ymwneud ag ef ("y person perthnasol") o ddechrau'r cyfnod y mae'r anghydfod yn ymwneud ag ef,

(d) os yw'r anghydfod yn ymwneud â pha awdurdod sydd i ddiwallu anghenion gofalwr, y manylion am anghenion y gofalwr o ddechrau'r cyfnod y mae'r anghydfod yn ymwneud ag ef,

(e) datganiad ynghylch pa awdurdod sydd wedi diwallu'r anghenion hynny ers dechrau'r cyfnod y mae'r anghydfod yn ymwneud ag ef, sut y cafodd yr anghenion hynny eu diwallu a'r darpariaethau statudol y cawsant eu diwallu odanynt,

(f) gwybodaeth am y costau y ceisir eu hadennill, gan gynnwys dadansoddiad o'r costau hynny,

(g) y manylion am y camau y mae'r awdurdodau wedi eu cymryd i ddatrys yr anghydfod rhyngddynt hwy eu hunain, ac

(h) unrhyw wybodaeth arall y mae'n ymddangos i unrhyw un neu ragor o'r awdurdodau ei bod yn berthnasol i'r dyfarniad ar yr anghydfod.

(4) Rhaid i'r awdurdodau gyflwyno unrhyw ddadleuon cyfreithiol y maent yn dibynnu arnynt mewn perthynas â'r anghydfod o fewn 14 o ddiwrnodau i'r dyddiad yr atgyfeirir yr anghydfod.

(5) Os yw awdurdod yn cyflwyno dadleuon cyfreithiol, rhaid iddo—

(a) anfon copi o'r dadleuon hynny at yr awdurdodau eraill, a

(b) darparu tystiolaeth i'r person priodol ei fod wedi gwneud hynny.

(6) Os yw'r person priodol yn gofyn i unrhyw un neu ragor o'r awdurdodau ddarparu gwybodaeth bellach, rhaid i'r awdurdod lleol y gwneir y cais hwn iddo gydymffurfo ag ef yn ddi-oed.

**Adolygu dyfarniadau**

**7.**—(1) Caiff awdurdod wneud cais i Weinidogion Cymru am adolygu'r dyfarniad.

(2) Rhaid i unrhyw gais o'r fath gael ei wneud o fewn tri mis i ddyddiad y dyfarniad.

(3) Caniateir i adolygiad gael ei gynnal gan Weinidogion Cymru (p'un ai mewn ymateb i gais neu fel arall).

(4) Caiff Gweinidogion Cymru gadarnhau'r dyfarniad neu roi dyfarniad gwahanol yn ei le.

**Dyfarniadau a amnewidiwyd**

**8.**—(1) Pan fo—

(a) adolygiad o ddyfarniad wedi ei gynnal yn unol â rheoliad 7 a bod dyfarniad gwahanol wedi ei roi yn ei le,

(b) awdurdod lleol ("A"), o ganlyniad i'r dyfarniad cyntaf, wedi talu swm i awdurdod lleol arall ("B"), ac

(c) effaith yr ail ddyfarniad yn golygu nad oedd yn ofynnol i rywfaint neu'r cyfan o'r swm a dalwyd gan A i B gael ei dalu,

rhaid i B ad-dalu i A y swm nad oedd yn ofynnol iddo gael ei dalu.

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

7 Gorffennaf 2015

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae adran 195 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn darparu ar gyfer dyfarnu ar anghydfodau rhwng awdurdodau lleol ynghylch ble y mae person yn preswylio fel arfer yng Nghymru at ddibenion Deddf 2014 ac ar gyfer dyfarnu ar anghydfodau rhwng awdurdod anfon ac awdurdod derbyn o dan adran 56 o Ddeddf 2014 (hygludedd gofal a chymorth) ynghylch cymhwyso'r adran honno mewn perthynas â pherson.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth bellach ynghylch datrys anghydfodau o'r fath ac yn nodi'r gweithdrefnau sydd i'w dilyn pan fydd anghydfodau'n codi.

Bydd y Rheoliadau hyn yn gymwys hefyd i anghydfod rhwng awdurdodau lleol yng Nghymru ynghylch ble yr oedd person yn preswylio fel arfer at ddibenion adran 117(3) o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ôl-ofal). Mae adran 117(4) o'r Ddeddf honno yn darparu bod adran 195 o Ddeddf 2014 yn gymwys i anghydfod o'r fath fel y mae'n gymwys i anghydfod ynghylch ble'r oedd person yn preswylio fel arfer at ddibenion Deddf 2014.

Mae rheoliad 2 yn nodi pa awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddiwallu anghenion unigolyn hyd nes y caiff yr anghydfod ei ddatrys.

Mae rheoliad 3 yn darparu ar gyfer y camau sydd i'w cymryd gan awdurdodau lleol i geisio datrys yr anghydfod cyn ei atgyfeirio i Weinidogion Cymru ddyfarnu arno o dan adran 195 o'r Ddeddf.

Mae rheoliad 4 yn nodi'r ddogfennaeth sydd i'w darparu gan awdurdodau lleol wrth wneud atgyfeiriad.

Mae rheoliadau 5 a 6 yn nodi fersiynau o'r darpariaethau hyn sydd wedi eu haddasu ychydig ar gyfer achosion penodol sy'n codi o dan adran 189 o'r Ddeddf.

Mae rheoliad 7 yn darparu ar gyfer adolygu dyfarniadau. Mae rheoliad 8 yn darparu ar gyfer ad-dalu rhwng awdurdodau lleol os effaith dyfarniad diwygiedig yn dilyn adolygiad yw nad oedd symiau a dalwyd o dan ddyfarniad blaenorol yn ddyledus.